



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 Rhif 3235 (Cy.315)

2003 No. 3235 (W.315)

BYWYD GWYLLT, CYMRU

WILDLIFE, WALES

Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn
Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a
Marcio Adar Caeth Penodol)
(Cymru) 2003

The Wildlife and Countryside
(Registration, Ringing and
Marking of Certain Captive Birds)
(Wales) Regulations 2003

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae adran 7(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("y Ddeddf") yn darparu bod person sy'n cadw, neu'n meddu ar neu sydd â rheolaeth dros, unrhyw aderyn sydd wedi'i gynnwys yn Atodlen 4 o'r Ddeddf, nad yw wedi'i gofrestru ac nad yw wedi'i fodrwyo na'i farcio yn unol â rheoliadau a wnaed o dan yr adran honno, yn euog o dramgwydd.

Section 7(1) of the Wildlife and Countryside Act 1981 ("the Act") provides that a person who keeps, or has possession of or control over, any bird included in Schedule 4 of the Act, which has not been registered and ringed or marked in accordance with regulations made under that section, is guilty of an offence.

Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 7(1) o'r Ddeddf mewn perthynas â Chymru wedi'i freinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol").

The power to make regulations under section 7(1) of the Act in relation to Wales is vested in the National Assembly for Wales ("the National Assembly").

Mae Atodlen 4 i'r Ddeddf wedi'i diwygio gan Orchymyn Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Amrywio Atodlen 4) 1994 (O.S. 1994/1151).

Schedule 4 to the Act has been amended by the Wildlife and Countryside Act 1981 (Variation of Schedule 4) Order 1994 (S.I. 1994/1151).

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion sy'n gymwys i Gymru o ran cofrestru, modrwyo a marcio at ddibenion adran 7(1) o'r Ddeddf. Maent yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru a Modrwyo Adar Caeth Penodol) 1982 (O.S. 1982/1221) i'r graddau y mae'r Rheoliadau hynny yn gymwys i Gymru.

These Regulations set out the registration, ringing and marking requirements for the purposes of section 7(1) of the Act which apply to Wales. They revoke and replace the Wildlife and Countryside (Registration and Ringing of Certain Captive Birds) Regulations 1982 (S.I. 1982/1221) insofar as those Regulations apply to Wales.

Mae Rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gadw cofrestr o adar at ddibenion adran 7(1) o'r Ddeddf. Mae'n darparu hefyd bod rhaid i geidwad, neu ddarpar geidwad, unrhyw aderyn sydd wedi'i gynnwys yn Atodlen 4 i'r Ddeddf wneud cais am gofrestrriad ar ffurflen a geir oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol. Ni chaiff y Cynulliad

Regulation 3 requires the National Assembly to maintain a register of birds for the purposes of section 7(1) of the Act. It also provides that the keeper, or prospective keeper, of any bird included in Schedule 4 to the Act must make an application for registration on a form obtained from the National Assembly. The National Assembly may not register the bird unless it is

Cenedlaethol gofrestru'r aderyn oni chaiff ei fodloni bod yr aderyn wedi'i fodrwyo neu wedi'i farcio yn unol â rheoliad 5.

Mae Rheoliad 4 yn nodi'r amgylchiadau sy'n peri bod cofrestrriad yn cael ei derfynu.

Mae Rheoliad 5 yn darparu ar gyfer modrwyo neu farcio adar y mae'r Rheoliadau yn gymwys iddynt.

Mae Rheoliad 5(2) yn darparu bod rhaid modrwyo aderyn â modrwy a geir oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol, a bod rhaid i'r person sy'n gwneud y modrwyo lenwi datganiad modrwyo a'i ddychwelyd i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Rheoliad 5(3) yn darparu dull amgen y caniateir ei ddefnyddio, sef marcio aderyn yn unol â'r Rheoliadau Ewropeaidd sy'n gweithredu gofynion paragraff 7 o Erthygl VI o'r Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau Ffawna a Fflora Gwyllt mewn Perygl ("CITES"). Y Rheoliad Ewropeaidd sydd ar hyn o bryd yn gweithredu'r ddarpariaeth berthnasol yn CITES yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1808/2001 dyddiedig 30 Awst 2001 sy'n gosod rheolau manwl ynglŷn â gweithredu Rheoliad y Cyngor 338/97 ar warchod rhywogaethau ffawna a fflora gwyllt drwy reoleiddio'r fasnach ynddynt (OJ L 250/1, 19.9.2001).

Mae Rheoliad 6 yn dirymu Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru a Modrwyo Adar Caeth Penodol) 1982 ("Rheoliadau 1982") mewn perthynas â Chymru. Mae'n gwneud darpariaethau trosiannol hefyd, sy'n darparu, os bydd camau wedi'u cymryd gan unrhyw berson, cyn i Rheoliadau 1982 gael eu dirymu, o dan unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hynny sy'n cael ei haildeddfu yn y Rheoliadau hyn, mae'r camau hynny i'w trin fel petaent wedi'u cymryd o dan y Rheoliadau hyn.

satisfied that the bird has been ringed or marked in accordance with regulation 5.

Regulation 4 sets out the circumstances which have the effect of terminating a registration.

Regulation 5 provides for the ringing or marking of birds to which the Regulations apply.

Regulation 5(2) provides that the ringing of a bird must be carried out with a ring obtained from the National Assembly, and the person carrying out the ringing must complete, and return to the National Assembly, a declaration of ringing.

Regulation 5(3) provides that a bird may alternatively be marked in accordance with European Regulations implementing the requirements of paragraph 7 of Article VI of the Convention on International Trade in Endangered Species of Wild Fauna and Flora ("CITES"). The European Regulation which currently implements the relevant provision in CITES is Commission Regulation (EC) No. 1808/2001 of 30 August 2001 laying down detailed rules concerning the implementation of Council Regulation 338/97 on the protection of species of wild fauna and flora by regulating trade therein (OJ L250/1, 19.9.2001).

Regulation 6 revokes the Wildlife and Countryside (Registration and Ringing of Certain Captive Birds) Regulations 1982 ("the 1982 Regulations") in relation to Wales. It also makes transitional provisions, which provide that where action has been taken by any person, prior to the revocation of the 1982 Regulations, under any provision of those Regulations which is re-enacted in these Regulations, that action is to be treated as having been taken under these Regulations.

2003 Rhif 3235 (Cy.315)**2003 No. 3235 (W.315)****BYWYD GWYLLT, CYMRU****WILDLIFE, WALES****Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn
Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a
Marcio Adar Caeth Penodol)
(Cymru) 2003****The Wildlife and Countryside
(Registration, Ringing and
Marking of Certain Captive Birds)
(Wales) Regulations 2003**

Wedi'u gwneud 9 Rhagfyr 2003
Yn dod i rym 31 Rhagfyr 2003

Made 9th December 2003
Coming into force 31st December 2003

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 7(1) a (2) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(a) ac sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(b), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by section 7(1) and (2) of the Wildlife and Countryside Act 1981(a) and now exercisable by the National Assembly for Wales(b), hereby makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwys

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Citation, commencement and application

1.-(1) These Regulations may be cited as the Wildlife and Countryside (Registration, Ringing and Marking of Certain Captive Birds) (Wales) Regulations 2003 and come into force on 31st December 2003.

(2) These Regulations apply to Wales.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw'r person sy'n cadw, neu sy'n meddu ar, neu sydd â rheolaeth dros, aderyn;

ystyr "CITES" ("*CITES*") yw'r Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau Ffawna a Fflora Gwyllt mewn Perygl(c);

ystyr "marc CITES" ("*CITES marking*") yw marc sy'n bodloni'r gofynion sydd wedi'u nodi yn rheoliad 5(3);

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad

Interpretation

2.-(1) In these Regulations -

"CITES" ("*CITES*") means the Convention on International Trade in Endangered Species of Wild Fauna and Flora(c);

"CITES marking" ("*marc CITES*") means a marking which satisfies the requirements set out in regulation 5(3);

"keeper" ("*ceidwad*") means the person who keeps, or has possession of, or control over, a bird;

"ring" ("*modrwy*") means any ring or band for ringing a bird;

(a) 1981 p.69.

(b) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mewn perthynas â Chymru, yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672).

(c) Fe'i llofnodwyd yn Washington ar 3 Mawrth 1973.

(a) 1981 c.69.

(b) The functions of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales, in relation to Wales, by virtue of article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) Signed in Washington on 3 March 1973.

Cenedlaethol Cymru;
ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981;
ystyr "modrwy" ("*ring*") yw unrhyw fodrwy neu fand ar gyfer modrwyo aderyn.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at aderyn y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo yn gyfeiriad at unrhyw aderyn sydd wedi'i gynnwys yn Atodlen 4 i'r Ddeddf ac y mae unrhyw berson yn ei gadw, yn meddu arno neu'n ei reoli.

Cofrestru

3.-(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, at ddibenion adran 7(1) o'r Ddeddf, gadw cofrestr o adar y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt ac sy'n cael eu cadw mewn cyfeiriadau yng Nghymru.

(2) Rhaid i gais am gofrestriad gael ei wneud gan geidwad, neu ddarpar geidwad, yr aderyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef ar ffurflen a gafwyd oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Pan fydd yn cael cais am gofrestriad, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn ddarostyngedig i baragraffau (4) a (5), nodi'r wybodaeth berthnasol ar y gofrestr.

(4) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol beidio â chofrestru unrhyw aderyn y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo oni bai ei fod wedi'i fodloni bod yr aderyn wedi'i fodrwyo neu wedi'i farcio yn unol â rheoliad 5.

(5) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ei gwneud yn ofynnol i unrhyw dâl rhesymol am gofrestru y mae wedi penderfynu arno o dan adran 7(2A) o'r Ddeddf fynd gyda chais a chaiff wrthod gwneud cofnod yn y gofrestr ar gyfer cais nes bod y tâl hwnnw wedi'i dalu.

(6) Os bydd ceidwad cofrestredig aderyn yn hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig fod yr aderyn i beidio â chael ei gadw yn y cyfeiriad cofrestredig, gan ddatgan y dyddiad y mae hynny i fod i ddigwydd a chan nodi cyfeiriad arall yng Nghymru y mae'r aderyn i'w gadw ynddo ar ôl y dyddiad hwnnw, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, ar yr amod bod hysbysiad yn dod i law cyn y dyddiad hwnnw, newid y cyfeiriad cofrestredig felly o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

Terfynu cofrestriad

- 4.-(1) Mae effaith cofrestriad yn peidio -
- (a) pan fydd yr aderyn cofrestredig -
 - (i) yn marw;
 - (ii) yn dianc neu'n cael ei ryddhau i'r gwylt;
 - (iii) yn cael ei waredu drwy ei werthu neu fel arall;
 - (iv) yn cael ei allforio o'r Deyrnas Unedig;

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Wildlife and Countryside Act 1981;

"the National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales.

(2) In these Regulations, any reference to a bird to which these Regulations apply is a reference to any bird included in Schedule 4 to the Act which any person keeps, possesses or controls.

Registration

3.-(1) The National Assembly must, for the purposes of section 7(1) of the Act, maintain a register of birds to which these Regulations apply which are kept at addresses in Wales.

(2) An application for registration must be made by the keeper, or prospective keeper, of the bird to which the application relates on a form obtained from the National Assembly.

(3) On receiving an application for registration the National Assembly must, subject to paragraphs (4) and (5), enter the relevant information on the register.

(4) The National Assembly must not register any bird to which these Regulations apply unless it is satisfied that the bird has been ringed or marked in accordance with regulation 5.

(5) The National Assembly must require an application to be accompanied by such reasonable charge for registration as it has determined under section 7(2A) of the Act and may decline to make an entry in the register in respect of an application until that charge has been paid.

(6) If the registered keeper of a bird notifies the National Assembly in writing that the bird is to cease to be kept at the registered address, stating the date when that is to occur and specifying another address in Wales at which the bird is to be kept after that date, the National Assembly must, provided notification is received before that date, amend the registered address accordingly with effect from that date.

Termination of registration

- 4.-(1) A registration ceases to have effect -
- (a) when the registered bird -
 - (i) dies;
 - (ii) escapes or is released into the wild;
 - (iii) is disposed of by way of sale or otherwise;
 - (iv) is exported from the United Kingdom;

- (b) pan fydd y fodrwy a gafwyd oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn ôl y digwydd, y marc CITES, yn cael ei thynnu oddi ar yr aderyn neu pan ddaw'r wybodaeth adnabod sydd arni neu sydd wedi'i storio arni yn annarllenadwy;
- (c) pan fydd yr aderyn cofrestredig yn cael ei gadw gan berson heblaw ei geidwad cofrestredig neu pan fydd ym meddiant neu o dan reolaeth y person hwnnw, oni fwriedir ar yr adeg y mae'r aderyn yn dechrau cael ei gadw, ei feddiannu neu ei reoli ei ddychwelyd i'w geidwad cofrestredig o fewn y cyfnod penodedig a bod yr aderyn yn cael ei ddychwelyd felly, ac yn yr is-baragraff hwn ystyr "y cyfnod penodedig" -
 - (i) os na fydd yr aderyn yn cael ei gadw'n barhaus yn ei gyfeiriad cofrestredig, yw cyfnod o dair wythnos, a
 - (ii) os bydd yr aderyn yn cael ei gadw'n barhaus yn ei gyfeiriad cofrestredig, yw cyfnod o chwe wythnos;
- (ch) pan fydd yr aderyn cofrestredig yn cael ei gadw gan ei geidwad cofrestredig, neu pan fydd ym meddiant neu o dan reolaeth y ceidwad hwnnw, ond yn peidio â chael ei gadw yn ei gyfeiriad cofrestredig, oni bai -
 - (i) y bwriedir, ar yr adeg y mae'r aderyn yn dechrau cael ei gadw, ei ddychwelyd i'w gyfeiriad cofrestredig o fewn tair wythnos a bod yr aderyn yn cael ei ddychwelyd felly, neu
 - (ii) bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig, cyn bod yr aderyn yn peidio â chael ei gadw felly, o'r cyfeiriad newydd lle bydd yn cael ei gadw ac o'r dyddiad y dechreuir ei gadw felly, a bod y cyfeiriad newydd hwnnw yng Nghymru.

(2) Yn rheoliad 3(6) ac ym mharagraff (1)(c) ac (ch) uchod, ystyr "ceidwad cofrestredig" mewn perthynas ag aderyn cofrestredig yw'r person sydd wedi'i gofrestru fel ceidwad aderyn yn y gofrestr a gedwir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan reoliad 3(1), ac ystyr "cyfeiriad cofrestredig" yw'r cyfeiriad sydd wedi'i gofrestru yn y gofrestr honno fel y cyfeiriad lle mae'r yr aderyn yn cael ei gadw.

Modrwyo a marcio

5.-(1) Rhaid i bob aderyn y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo gael ei fodrwyo yn unol â pharagraff (2) neu ei farcio yn unol â pharagraff (3).

(2) Mae aderyn wedi'i fodrwyo yn unol â'r paragraff hwn -

- (a) os yw'r aderyn wedi'i fodrwyo â modrwy a gafwyd oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol; a

- (b) when the ring obtained from the National Assembly, or, as the case may be, the CITES marking, is removed or the identifying information on it or stored within it becomes unreadable;

- (c) when the registered bird is kept or possessed by or is under the control of a person other than its registered keeper, unless it is intended at the time when the bird begins to be so kept, possessed or controlled that it will be returned to its registered keeper within the specified period and the bird is so returned, and in this sub-paragraph "the specified period" means -

- (i) where the bird will not be kept continuously at its registered address, a period of 3 weeks, and
- (ii) where the bird will be kept continuously at its registered address, a period of 6 weeks;

- (d) when the registered bird is kept or possessed by or is under the control of its registered keeper but ceases to be kept at its registered address, unless -

- (i) it is intended at the time when the bird ceases to be so kept that it will be returned to its registered address within 3 weeks and the bird is so returned, or
- (ii) the National Assembly is notified in writing before the bird ceases to be so kept of the new address at which it will be kept and the date from which it will be so kept, and that new address is in Wales.

(2) In regulation 3(6) and in paragraph (1)(c) and (d) above, "registered keeper" in relation to a registered bird means the person registered as keeper of the bird in the register maintained by the National Assembly under regulation 3(1), and "registered address" means the address registered in that register as that at which the bird is kept.

Ringing and marking

5.-(1) Every bird to which these Regulations apply must be ringed in accordance with paragraph (2) or marked in accordance with paragraph (3).

(2) A bird is ringed in accordance with this paragraph if-

- (a) the bird is ringed with a ring obtained from the National Assembly; and

(b) os yw'r person a fodrwyodd yr aderyn wedi llenwi datganiad modrwyo ar ffurflen a gafwyd oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol, ac wedi dychwelyd y ffurflen honno i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Mae aderyn wedi'i farcio yn unol â'r paragraff hwn os yw'r aderyn wedi'i farcio yn unol â'r gofynion ynghylch marcio sbesimenau mewn Rheoliadau Ewropeaidd sy'n gweithredu paragraff 7 o Erthygl VI o CITES.

Dirymu a darpariaethau trosiannol

6.-(1) Dirymir drwy hyn Reoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru a Modrwyo Adar Caeth Penodol) 1982(a), i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

(2) Os -

- (a) yr oedd yn ofynnol i unrhyw berson neu os oedd unrhyw berson wedi'i awdurdodi(b) i gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â Chymru o dan unrhyw un o ddarpariaethau Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru a Modrwyo Adar Caeth Penodol) 1982;
- (b) y cafodd y camau hynny eu cymryd cyn i'r Rheoliadau hynny gael eu dirymu gan y Rheoliadau hyn; ac
- (c) y cafodd y ddarpariaeth o dan sylw ei hail-ddeddfu gan y Rheoliadau hyn;

mae'r camau hynny i'w trin, at ddibenion y Rheoliadau hyn, fel petaent wedi'u cymryd o dan y Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(c)

9 Rhagfyr 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(a) O.S. 1982/1221, a ddiwygiwyd gan O.S. 1991/478 ac O.S. 1994/1152.
(b) Yn rhinwedd O.S. 1999/672.
(c) 1998 p.38.

(b) the person who ringed the bird has completed a declaration of ringing on a form obtained from the National Assembly, and has returned that form to the National Assembly.

(3) A bird is marked in accordance with this paragraph if it is marked in accordance with the specimen marking requirements of European Regulations implementing paragraph 7 of Article VI of CITES.

Revocation and transitional provisions

6.-(1) The Wildlife and Countryside (Registration and Ringing of Certain Captive Birds) Regulations 1982(a) are hereby revoked, insofar as they apply to Wales.

(2) Where -

- (a) any person was required or authorised(b) to take any action in relation to Wales by any provision of the Wildlife and Countryside (Registration and Ringing of Certain Captive Birds) Regulations 1982;
- (b) such action was taken prior to the revocation of those Regulations by these Regulations; and
- (c) the provision in question is re-enacted by these Regulations;

that action is to be treated, for the purpose of these Regulations, as having been taken under these Regulations.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(c)

9th December 2003

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) S.I. 1982/1221, amended by S.I. 1991/478 and S.I. 1994/1152.
(b) By virtue of S.I. 1999/672.
(c) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

2003 Rhif 3235 (Cy.315)

BYWYD GWYLLT, CYMRU

Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn
Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a
Marcio Adar Caeth Penodol)
(Cymru) 2003

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 No. 3235 (W.315)

WILDLIFE, WALES

The Wildlife and Countryside
(Registration, Ringing and
Marking of Certain Captive Birds)
(Wales) Regulations 2003

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.00


W215/12/03

ON

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090830-9



9 780110 908304